

**Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod Sesiwn Gyhoeddus Pwyllgor Archwilio a
Llywodraethu Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru**

14 Ionawr 2025 am 09:30, yn 3.2 CQ2 a thrwy Microsoft Teams

Rhan A

Yn bresennol		
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol, Cadeirydd
Tamsin Ramasut	(TR)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Clare Jenkins	(CJ)	Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd y Bwrdd
Yn Bresennol:		
Anne Beegan	(AB)	Archwilio Cymru
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Pippa Britton	(PB)	Cadeirydd y Bwrdd
Andrea Calise	(AC)	Rheolwr Contract, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid
Danielle Gething	(DG)	Pennaeth Rheoli Risg (ar gyfer eitem 4.2)
Jonathan Jones	(JJ)	Rheolwr Arweiniol Seiberddiogelwch (ar gyfer eitem 5.4.)
Ian Kent	(IK)	Rheolwr Cyllid
Alun Lloyd	(AL)	Cynghorydd Annibynnol
Jane Matthews	(JM)	Pennaeth Adrodd a Rheoli Ariannol
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Angela Williams	(AW)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid
Steve Wyndham	(SW)	Archwilio Cymru
Ymddiheuriadau		
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Katrina Febry	(KF)	Archwilio Cymru
Dechreuodd y cyfarfod am 10:30		



ACGC 1/2025.01.14 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb	
<p>Agorodd NE y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol. Nododd bod y cyfarfod hwn wedi'i gynnal yn electronig ac wyneb yn wyneb yn CQ2.</p> <p>Croesawodd NE PB i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol, a chroesawodd hefyd IK i'w gyfarfod Pwyllgor cyntaf, wrth iddo gymryd yr awenau oddi wrth JM a oedd yn mynychu ei chyfarfod Pwyllgor diwethaf.</p> <p>Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb a dderbyniwyd.</p> <p>Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn sicrhau cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y bydd y cofnodion wedi'u cytuno yn y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2025.</p>	
ACGC 2/2025.01.14	Datganiadau o Fuddiant
<p>Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.</p>	
ACGC 3/2025.01.14	Archwilio Mewnol, Allanol a Chlinigol
ACGC 3.1/2025.01.14	Archwilio Mewnol
<p>Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol.</p> <p>Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol</p> <p>Dywedodd PD wrth y Pwyllgor fod gwaith wedi mynd rhagddo'n dda ers y cyfarfod diwethaf ym mis Medi. Tynnodd sylw'r Pwyllgor at adran 3.2, a oedd yn cyfeirio at y safonau archwilio mewnol byd-eang newydd sy'n gymwys o fis Ebrill 2025 a thempled diwygiedig sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer Archwilio Mewnol. Defnyddiwyd y templed adrodd newydd hwn i baratoi rhai adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn a oedd yn cydymffurfio â'r safonau newydd hyn. Y gwahaniaeth arall i dynnu sylw'r Pwyllgor ato oedd y ffordd y byddai camau gweithredu'n cael eu dilyn. Cynlluniwyd hyn i gyflawni mwy o graffu. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn effeithio ar y craffu cadarn presennol a ddefnyddir eisoes yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.</p> <p>Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai'r effaith yn cael ei hamlygu yn yr adroddiadau fformat newydd, gan wneud hyn yn fwy gweladwy i ddarlennwyr. Dywedodd PD y byddai hyn i'w weld yn adran Ymateb Rheolwyr yr adroddiadau.</p> <p>Cymerodd y Pwyllgor sicrwydd o'r Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol.</p> <p>Adroddiadau Archwilio Mewnol Terfynol</p> <p><u>Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso (Sicrwydd Rhesymol):</u></p> <p>Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol y Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso (Sicrwydd Rhesymol).</p> <p>Trafododd y Pwyllgor yr amryfusedd a amlygwyd i gysylltu â Strategaeth y Sefydliad wrth gomisiynu neu ddechrau ymchwil a gwerthuso yn yr adroddiad hwn ac awgrymodd</p>	

fod hwn wedi bod yn bwynt dysgu i'r Sefydliad yn fwy cyffredinol a bod y cysylltiad bellach yn cael ei wneud yn gyson ar ddechrau unrhyw waith.

Gofynnodd y Pwyllgor a ddylai'r sgôr sicrwydd fod wedi bod yn sylweddol oherwydd efallai nad oedd yr asesiad rhesymol a roddwyd yn adlewyrchu nifer yr argymhellion a'u blaenoriaethau. Dywedodd PD wrth y Pwyllgor ei fod yn farn a benderfynwyd yn dilyn trafodaeth o fewn ei dîm, a bod y cwestiwn wedi'i nodi.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** o Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol y Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso (Sicrwydd Rhesymol) .

Cyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant - Cynllunio Ariannol (Sicrwydd Rhesymol):

Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth** i Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant - Cynllunio Ariannol (Sicrwydd Rhesymol).

Tynnodd AC sylw'r Pwyllgor at y canfyddiad blaenoriaeth uchel lle'r oedd un canolfan gostau yn cael ei defnyddio i gofnodi gweithgareddau a thrafodion ar gyfer mwy nag un prosiect. Roedd canfyddiadau eraill yn cynnwys hyfforddiant rheoli cyllidebol a diffyg ymwybyddiaeth o ganllawiau a dogfennau gweithdrefn a oedd ar gael.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd gweithdrefn i gofnodi pwy oedd wedi cael hyfforddiant ac a oedd hwn yn bwynt dysgu i'r Sefydliad yn ehangach. Dywedodd PD wrth y Pwyllgor y byddai'r adroddiadau fformat newydd yn rhoi mwy o eglurder i'r Pwyllgor ar y materion hyn. Derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd gan PD bod Camau Gweithredu yn cael eu cofnodi yn y Traciwr Camau Gweithredu Archwilio a chafodd y Pwyllgor hwn yr wybodaeth ddiweddaraf ym mhob cyfarfod, roedd y Traciwr yn cynnwys yr holl gamau gweithredu ac yn cofnodi eu bod wedi'u cwblhau.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** o Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant - Cynllunio Ariannol (Sicrwydd Rhesymol) .

Y Ddyletswydd Gonestrwydd (Sicrwydd Rhesymol):

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol y Ddyletswydd Gonestrwydd (Sicrwydd Rhesymol).

Nododd AC ei fod yn yr ystod uwch o sicrwydd rhesymol a thynnodd sylw'r Pwyllgor at feysydd hyfforddi ac arweiniad i staff.

Teimlai'r Pwyllgor fod yr Adroddiad Archwilio, wrth edrych ar yr hyn a oedd yn faes newydd i'r Sefydliad, yn edrych yn rhy llym wrth gyflwyno ei ganfyddiadau. Dim ond dau achos yr oedd yr Archwiliad wedi'u hadolygu a theimlwyd ei fod yn nifer rhy fach i fod yn gynrychioliadol ar gyfer Archwiliad manwl. Clywodd y Pwyllgor hefyd fod rhai o'r argymhellion y tu allan i reolaeth y Sefydliad, a byddai'r argymhellion DATIX hyn yn cael eu cyflwyno i Dîm Unwaith i Gymru.



Sicrhodd CB y Pwyllgor y byddai'r Sefydliad yn gweithio'n agos gyda'r sefydliadau partner lle'r oedd cyfrifoldeb ar y cyd o ran y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Gofynnodd y Pwyllgor i PD adolygu'r sgôr sicrwydd yn dilyn trafodaethau yn y cyfarfod. Cytunodd PD i ailystyried sgôr yr Adroddiad hwn tua diwedd y flwyddyn pan oedd Byrddau Iechyd eraill wedi cael eu harchwilio ar gyfer eu Dyletswydd Gonestrwydd.

Cam Gweithredu: PD

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** o Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol y Ddyletswydd Gonestrwydd (Sicrwydd Rhesymol).

Rheoli Cofnodion (Sicrwydd Rhesymol):

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol Rheoli Cofnodion (Sicrwydd Rhesymol).

Tynnodd AC sylw'r Pwyllgor at yr un canfyddiad blaenoriaeth uchel yn yr Adroddiad. Roedd y rheolwyr wedi nodi adnoddau ar ôl mis Mawrth 2025 i ddarparu gwell sicrwydd ansawdd a chydymffurfedd er mwyn sicrhau manteision ychwanegol a nodwyd gan y rhaglen. Ar adeg y gwaith maes, nid oedd y Sefydliad wedi cytuno ar ddull gweithredu i fynd i'r afael â'r bwlch adnoddau.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** o'r Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol Rheoli Cofnodion (Sicrwydd Rhesymol).

Strategaeth Ddigidol a Data (Sicrwydd Rhesymol):

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol y Strategaeth Ddigidol a Data (Sicrwydd Rhesymol).

Dywedodd AC wrth y Pwyllgor fod yr archwilwyr yn teimlo bod y strategaeth yn uchelgeisiol, ond bod cynnydd yn cael ei wneud. Roedd yn ymddangos bod yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o'r rhwystrau i gyflawni newid digidol ac roedd camau gweithredu a mesurau lliniaru ar waith i'w goresgyn.

Eglurodd PD fod yr adroddiad hwn yn y templed newydd, a thynnodd sylw at y Crynodeb Gweithredol a oedd yn nodi natur thematig y camau gweithredu y cytunwyd arnynt. Yn y dyfodol byddai themâu ar draws canfyddiadau yn nodi tueddiadau i ganiatáu dadansoddi gwybodaeth i wella dadansoddeg data yn y tymor hwy.

Roedd yr adran naratif hirach a welwyd yn yr hen dempled adroddiad wedi'i dileu a'i disodli gan adran newydd i grynhoi'r canfyddiadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o dan bob un o'r amcanion. Roedd y dystiolaeth a'r manteision disgwylidig wedi'u cynnwys yn yr adran ar gamau gweithredu y cytunwyd arnynt gan reolwyr.

Nododd y Pwyllgor y camau gweithredu ar gyfer Cofnod Risg Strategaeth Ddigidol a Data ar wahân, a chefnogodd y Pwyllgor y defnydd o un Log Risg cyfun a oedd yn cwmpasu holl feysydd y Sefydliad.



Ynglŷn â fformat yr Adroddiad newydd, gofynnodd NE i aelodau'r Pwyllgor e-bostio sylwadau ar y fformat newydd at LB a fyddai'n casglu ac yn adrodd yn ôl i PD er mwyn gallu datblygu'r templed ymhellach.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** o Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol y Strategaeth Ddigidol a Data (Sicrwydd Rhesymol).

Diolchodd NE i PD ac AC am y Diweddariad a'r Adroddiadau Archwilio Terfynol.

ACGC 3.2/2025.01.14 | Archwilio Allanol

Ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Archwilio Cymru.

Diweddarodd SW y Pwyllgor ar gynnydd y gwaith Archwilio Ariannol. 2023/2024. Roedd gwaith wedi'i gwblhau ac roedd gwaith cynllunio wedi dechrau ar gyfer Archwiliad 2024/2025 gyda'r Sefydliad. Dywedodd wrth y Pwyllgor mai'r dyddiad cau ar gyfer Archwilio eleni fyddai 30 Mehefin 2024 gyda chynllun treigl i ddod â'r dyddiad cau yn ôl i ddiwedd mis Mai fel yr oedd cyn y pandemig Covid-19.

Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd gan HG y byddai'r newid personél sydd i ddod yn y Sefydliad yn dal i gyflawni'r gwaith archwilio ariannol ar amser ac yn unol â'r cynllun. Cadarnhaodd HG y byddai'r cynlluniau sefydledig yn gweithio gyda'r strwythur staff newydd.

Tynnodd AB sylw'r Pwyllgor at y cynllun gwaith presennol:

- Roedd y papurau Asesiad Strwythuredig ac Effeithlonrwydd Ariannol ar agenda heddiw.
- Byddai'r Adroddiad Llesiant yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth.
- Byddai Archwilio Cymru yn mynychu Cyfarfod Cyfarwyddwyr Digidol Cymru Gyfan i gyflwyno cwmpas yr adolygiad arfaethedig.

Nododd y Pwyllgor y Diweddariad gan Archwilio Cymru.

Adolygiad o Drefniadau Gwella Costau:

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adolygiad o Drefniadau Gwella Costau.

Dywedodd AB wrth y Pwyllgor fod yr Adroddiad hwn yn rhoi sicrwydd i'r Sefydliad bod trefniadau ar waith o fewn y Sefydliad. Nid oedd Archwilio Cymru wedi gwneud unrhyw argymhellion yn yr adroddiad hwn a dywedodd AB wrth y Pwyllgor, yn amodol ar gwblhau adroddiad ar gyfer sefydliad arall, y byddai Archwilio Cymru yn cyhoeddi Datganiad i'r Wasg yn nodi'r sefyllfa ar draws Cymru, nid oedd yn bwriadu cyhoeddi adroddiad Cymru Gyfan.

Dywedodd AB wrth y Pwyllgor fod Archwilio Cymru yn datblygu rhestr wirio ar gyfer Aelodau'r Bwrdd i'w cefnogi wrth iddynt graffu ar y sefyllfa ariannol.



Trafododd y Pwyllgor yr Adroddiad a nododd fod y dull terfynol yn wahanol i'r hyn a drafodwyd yn flaenorol yn y Pwyllgor i gynhyrchu papur ar lefel Genedlaethol gydag elfen ddarganfod a oedd yn cyflwyno meysydd i'w gwella ar gyfer y Sefydliad. Teimlai'r Pwyllgor y byddai adroddiad cenedlaethol wedi ychwanegu mwy o werth i sefydliadau.

Dywedodd AB wrth y Pwyllgor mai'r gwaith a wnaed oedd gweld y GIG mewn sefyllfa gyflawn gan nodi'r heriau yr oedd GIG Cymru yn eu hwynebu.

Nododd y Pwyllgor yr Adolygiad o Drefniadau Gwella Costau.

Asesiad Strwythuredig 2024:

Ystyriodd y Pwyllgor yr Asesiad Strwythuredig 2024.

Dywedodd AB wrth y Pwyllgor nad oedd Archwilio Cymru wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd yn adroddiad eleni. Cododd yr holl argymhellion a gynhwyswyd o ganlyniad i argymhellion heb eu bodloni o Asesiad Strwythuredig y llynedd.

Trafododd y Pwyllgor yr Adroddiad a gofynnodd am eglurder ynghylch gofynion yr argymhelliad ar gyfer trefnu cyfarfodydd yn amserol. Esboniodd AB mai'r awgrym oedd alinio cyfarfodydd y Pwyllgor er mwyn caniatáu i bapurau gael eu trosglwyddo'n amserol rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor a'r Bwrdd er mwyn lleihau nifer y diweddariadau llafar a dderbynnir yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

Dywedodd LB wrth y Pwyllgor fod amseriad yr Asesiad Strwythuredig y llynedd ar ôl i ddyddiadau cyfarfodydd y flwyddyn gael eu pennu, nid oedd yn bosibl aildrefnu'r cyfarfodydd bryd hynny. Cynlluniwyd amserlen y cyfarfodydd ar gyfer eleni gan gymryd i ystyriaeth yr awgrymiadau a wnaed yn flaenorol a dyma'r un oedd yn cyd-fynd orau ar gyfer dyddiadau Pwyllgorau ac aliniad â chyfarfodydd y Bwrdd yr oedd modd eu trefnu.

Gofynnodd y Pwyllgor i Archwilio Cymru am y geiriad a ddefnyddiwyd ym mharagraff 98 yr Adroddiad. Nid oedd y geiriau offerynnau statudol yn cyd-fynd ag ystyr y paragraff a dylid eu disodli gan gyfarwyddiadau ariannol sefydlog. Eglurodd AB fod Archwilio Cymru yn defnyddio'r term i gyfeirio at yr ystod o ddogfennau statudol gan gynnwys Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cynlluniau Dirprwyo a Rheolau Sefydlog.

Diolchodd PV i Archwilio Cymru am y gwaith o gynhyrchu'r Asesiad Strwythuredig a oedd unwaith eto'n dangos y safonau uchel yr oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'u cyflawni. Roedd y meysydd dysgu a'r argymhellion wedi eu nodi gan y Sefydliad fel meysydd i'w gwella eleni.

Nododd y Pwyllgor yr Asesiad Strwythuredig 2024.

Diolchodd NE i AB am y Diweddariad Archwilio Cymru.

ACGC 3.3/2025.01.14 | Traciwr Argymhellion Archwilio

Ystyriodd y Pwyllgor y traciwr argymhellion Archwilio a'r adroddiad a nododd fod camau gweithredu a oedd yn ymwneud â gwybodaeth fusnes-sensitif wedi'u hystyried yng Nghyfarfod Preifat y Pwyllgor.



Dywedodd LB wrth y Pwyllgor am y sefyllfa bresennol o ran cynnydd a gweithrediad y camau gweithredu rheoli sy'n codi o argymhellion Archwilio Mewnol ac Allanol. Adolygwyd y Gofrestr Tracio Archwilio bob chwarter gan y Tîm Arwain (TA) a oedd yn gyfrifol am gau camau gweithredu, cymeradwyo estyniadau a sicrhau cynnydd o ran gweithredu. Mae'r Traciwr yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn bob chwarter ar gyfer Sicrwydd. Caedd y TA 19 o gamau gweithredu a chyhoeddi cyfanswm o chwe estyniad gan gynnwys y rhai y craffwyd arnynt mewn sesiwn breifat.

Tynnodd LB sylw'r Pwyllgor at bedwar Pwynt Gweithredu yr oedd y TA wedi gofyn am ragor o wybodaeth amdanynt ac eglurder cyn cytuno i'r ceisiadau neu wedi eu trafod yn fanylach.

- 586 (Iechyd a Llesiant) - ceisiwyd gwybodaeth ychwanegol gan yr arweinydd i ddeall y camau gweithredu oedd yn cael eu cymryd, rhoddwyd sicrwydd i'r TA fod yr wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd yn rhoi sail ar gyfer yr estyniad.
- 541 (Gwybodaeth) - gofynnwyd am estyniad ond teimlai'r Tîm Arwain fod y Cam Gweithredu wedi'i gau. Ni chymerwyd un elfen o'r Cam Gweithredu ond teimlai'r Tîm Arwain fod hyn o fewn cylch gorchwyl Cam Gweithredu agored arall. Caewyd Cam Gweithredu 541.
- 516 (Gweithrediadau a Chyllid) - gofynnwyd am estyniad i ganiatáu i'r Polisi ddod gerbron y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwybodaeth. Cafodd y dyddiadau eu plotio yn erbyn calendr cyfarfodydd QSIC a chaniatwyd estyniad i ganiatáu cyflwyno Polisi i gyfarfod QSIC mwy realistig.
- 447 (Uned Busnes y Bwrdd) - trafododd y Tîm Arwain yr amser y bu'r Cam Gweithredu hwn ar agor. Derbyniodd y Tîm Arwain sicrwydd bod y gwaith yn rhan o waith yr Hyb Llywodraethu a bod yr estyniad a ganiatwyd yn cyd-fynd â gwaith yr Hyb yn ei gyfnod peilot.

Gofynnodd y Pwyllgor am faint o amser yr oedd Cam Gweithredu 516 wedi bod ar agor a gofynnodd a fyddai'r estyniad a ganiatwyd yn caniatáu ar gyfer ei gwblhau heb gais am estyniad arall. Sicrhaodd y LB y Pwyllgor fod y gwaith a oedd yn gysylltiedig â'r Cam Gweithredu hwn yn ymwneud â nifer fawr iawn o Bolisiau, roedd cynnydd sylweddol wedi'i wneud a chaniatwyd y cais am estyniad hwn i ganiatáu amser i'r polisi olaf yn y grŵp sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd symud ymlaen drwy'r system i'r cam cymeradwyo.

Gofynnodd y Pwyllgor sut yr oedd systemau Sefydliadol yn cael eu rhoi ar waith ar ôl cwblhau argymhellion, a chyfeiriwyd yn benodol at Gynlluniau Swydd Ymgynghorwyr. Eglurodd LB rolau Pwyllgorau'r Bwrdd, y Pwyllgor hwn a oruchwyliodd gwblhau'r Camau Gweithredu ac yn yr achos hwn byddai'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol (PODC) yn monitro effaith y Camau Gweithredu o fewn y Sefydliad a byddai'r dilyniant yn cael ei drosglwyddo i gynllun gwaith PODC.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cam Gweithredu hwn gael ei nodi ar y cynllun gwaith Traws-Bwyllgor.

Cam Gweithredu: LB

Dywedodd CB wrth y Pwyllgor fod y Sefydliad wedi gwneud cais llwyddiannus am System Rheoli Traciwr Archwilio (AMaT - Rheoli a Thracio Archwilio) a fyddai'n cael ei gweithredu ar draws y Sefydliad.



Sicrhaodd SS y Pwyllgor, fel Cadeirydd y TA, fod y craffu a roddwyd i'r Traciwr Archwilio bellach yn gadarnach ac yn fwy manwl nag y bu yn y gorffennol.

Cydnabu'r Pwyllgor fod y Traciwr wedi dangos llywodraethu da ledled y Sefydliad ac **ystyriodd** y diwygiadau i'r Traciwr Archwilio fel y'u cymeradwywyd gan y Tîm Arwain ar 10 Awst 2024 a chymerodd **sicrwydd** ynghylch y cynnydd o ran rhoi'r camau gweithredu sy'n deillio o Archwilio o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru ar waith.

ACGC 4/2025.01.14 | **Risg**

ACGC 4.1/2025.01.14 | **Cofrestr Risgiau Strategol**

Derbyniodd y Pwyllgor y Gofrestr Risg Strategol.

Atgoffodd NE y Pwyllgor mai dyma'r Gofrestr Risg Strategol a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Tachwedd ac a oedd wedi'i chraffu gan y Bwrdd.

ACGC 4.2/2025.01.14 | **Y Gofrestr Risg Gorfforaethol**

Derbyniodd y Pwyllgor y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Eglurodd SS fod y gofrestr hon yn cynnwys y lefel uchaf o risg gweithredol a oedd yn cael eu rheoli gan Dimau Arwain y Cyfarwyddiaethau a'r Swyddogion Gweithredol priodol. Mae gan y Tîm Arwain y gwaith o oruchwylio a chraffu ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol a rhoddodd sicrwydd drwy'r Tîm Gweithredol Busnes i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau. Eglurodd fod cysylltiadau cliriach rhwng Risgiau Corfforaethol a'u rheolaeth a'r effaith y gallent ei chael ar y Risgiau Strategol cysylltiedig a adroddwyd drwy'r Gofrestr Risg Strategol.

Crynhodd DG y Gofrestr Risg Gorfforaethol gyfredol gan nodi bod dwy risg newydd wedi'u hychwanegu at y Gofrestr Risg Gorfforaethol yng nghyfarfod y Tîm Arwain ym mis Tachwedd 2024, a oedd wedi'u crynhoi yn yr adroddiad.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd Risg 1531 yn Risg Strategol a gofynnodd i DG adolygu'r Risg.

Cam Gweithredu: DG

Atgoffodd DG y Pwyllgor y cyflwynwyd graff pry cop yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd a oedd yn caniatáu craffu ar y proffil risg yn ei gyfanrwydd ar draws y Sefydliad. Roedd hwn wedi nodi elfennau o Risg Strategol 1 yr oedd angen craffu arnynt. Roedd y gwaith craffu wedi'i gwblhau a dywedodd DG y byddai papur yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Gweithredol Busnes a oedd yn gwneud argymhellion ar gyfer y Gofrestr Risg Strategol.

Ystyriodd y Pwyllgor y Gofrestr Risg Gorfforaethol a chymerodd **sicrwydd** arni.

ACGC 4.2/2025.01.14 | **Diweddariad Cynllun Datblygu Risg**

Atgoffodd SS y Pwyllgor i'r cynllun hwn gael ei gymeradwyo gyntaf yn 2022 a oedd wedyn yn arwain gwaith datblygu yn y Sefydliad.

Roedd papurau'r Pwyllgor yn rhoi statws RAG ar gyfer pob un o'r amcanion a restrir yn y Cynllun Datblygu Rheoli Risg, roedd hefyd yn disgrifio sut beth fyddai llwyddiant, sut y



<p>byddai'n cael ei fesur, y cynnydd yn erbyn pob diweddariad, pwy oedd yn gyfrifol ac yn awgrymu dyddiadau cau ar gyfer gweithredu. Roedd rhai dyddiadau cau mewn coch a gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi'r estyniad i'r terfynau amser yn y papur.</p> <p>Nododd y Pwyllgor y diweddariadau sy'n gysylltiedig ag amcanion y Cynllun Datblygu Rheoli Risg a nododd y dyddiadau cau diwygiedig ar gyfer gweithredu.</p>	
ACGC 5/2025.01.14	Llywodraethu ac Atebolrwydd
ACGC 5.11/2025.01.14	Cofnodion 10 Medi 2024 a Log Gweithredu
<p>Ystyriodd y Pwyllgor y Cofnodion a Log Gweithredu'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 10 Medi 2024.</p> <p>Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwyo cofnodion 10 Medi 2024, fel cofnodion cywir o'r cyfarfodydd. • Cymeradwyo cau un cam gweithredu wedi'i gwblhau ar y Log Gweithredu Rhan A a nodu diweddariad ar yr eitem ar Log Gweithredu Rhan B. 	
ACGC 5.2/2025.01.14	Diweddariad Sicrwydd Llywodraethu Integredig
<p>Ystyriodd y Pwyllgor y diweddariad Sicrwydd Llywodraethu Integredig.</p> <p>Mewn perthynas â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) bu gostyngiad bach yn yr amseroedd ymateb cyfartalog o 18 diwrnod o 19 diwrnod yn y chwarter blaenorol. Cafwyd 12 ymateb a ragorodd ar y terfyn amser o 20 diwrnod. Nodwyd y cyfuniad o geisiadau mwy a mwy cymhleth ynghyd ag oedi wrth dderbyn gwybodaeth gan y Cyfarwyddiaethau a'r Is-adrannau. Mewn un neu ddau o achosion roedd hyn oherwydd pwyntiau unigol o fethiant, sef absenoldeb staff.</p> <p>Roedd CB, SS ac IB wedi trafod proses uwchgyfeirio i hysbysu'r Swyddogion Gweithredol priodol am unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a oedd yn agosáu at derfynau amser. Roedd hyn yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd trwy gyfarfodydd Wythnosol yr Uwch Swyddogion Cyfrifol.</p> <p>Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y Gofrestr Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn cael ei rheoli gan system awtomataidd neu a oedd yn system â llaw. Eglurodd CB fod system Traciwr yn cael ei defnyddio ond ei bod yn dibynnu ar fewnbwn â llaw. Cyfeiriodd at y system AMaT a brynwyd a gobeithiai y byddai hyn o gymorth i olrhain ceisiadau.</p> <p>Gweithiodd CB, SS ac IB i lunio sut i ddod â Grwpiau Llywodraethu Gwybodaeth Sefydliad-gyfan ymlaen i grwpiau rhagnodedig i gyflwyno papurau i'r Tîm Gweithredol Busnes.</p> <p>Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Gwybodaeth a chymerodd sicrwydd ohono a bod Rhaglen Weithredu SharePoint ar gyfer Rheoli Cofnodion ar y trywydd iawn gyda'r cynllun gweithredu.</p>	
ACGC 5.3/2025.01.14	Amserlen Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ac Atebolrwydd 2024/25
<p>Derbyniodd y Pwyllgor yr Amserlen Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ac Atebolrwydd 2024/25</p>	



Cyflwynodd JM y papur a oedd yn dangos i'r Pwyllgor fod cynllun ar waith i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn unol â'r cynllun. Mae gan y Sefydliad gynllun priodol ar waith ar gyfer cynhyrchu'r datganiadau ariannol a'r adroddiad Atebolrwydd y manylir arnynt yn Atodiad 1.

Ychwanegodd LB fod yr Adroddiad Perfformiad wedi'i gynhyrchu gan y Tîm Perfformiad a fyddai'n cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith Busnes a'i gymeradwyo'n derfynol gan Tracey Cooper fel y Swyddog Atebol.

Derbyniodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod gan yr Ymddiriedolaeth gynllun priodol ar waith ar gyfer cynhyrchu'r Datganiadau Ariannol a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer 2024/25 yn unol â'r terfynau amser statudol.

ACGC 5.4/2025.01.14 | Polisi i'w Gymeradwyo

Derbyniodd y Pwyllgor:

- Y Weithdrefn ar gyfer rheoli Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Thaliadau Grant
- Y Polisi Cymru Gyfan ar Adennill Gordaliadau
- Y Polisi Diogelwch Gwybodaeth

Y Weithdrefn ar gyfer rheoli Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Thaliadau Grant

Eglurodd JM gefndir y Weithdrefn ar gyfer rheoli Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Thaliadau Grant.

Awgrymodd y Pwyllgor y gallai fod angen egluro'r geiriad ym mharagraffau 10 ac 16 er mwyn gwahaniaethu rhwng Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLG) gyda sefydliad GIG ac un ar gyfer Sefydliad nad yw'n rhan o'r GIG o ran datrys anghydfodau. Cytunodd JM i gynnwys paragraff arall i gynnwys y gwahaniaeth hwn.

Cam Gweithredu: JM

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Ystyried** y drefn newydd.
- **Nodi** bod y Tîm Arwain wedi cymeradwyo'r polisi i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol.
- **Cymeradwyo'r** Polisi diwygiedig

Polisi Cymru Gyfan ar Adennill Gordaliadau

Eglurodd JM gefndir y Polisi Cymru Gyfan ar Adennill Gordaliadau.

Datblygwyd hwn fel Polisi Cymru Gyfan i sicrhau dull gweithredu cyson ar draws Cymru. Roedd gan y Sefydliad ei phroses debyg ei hun, ac roedd y broses newydd yn cynnwys mân newidiadau i'r Polisi a oedd yn cael ei ddefnyddio.

Gofynnodd y Pwyllgor sut y llwyddwyd i gydymffurfio â'r Gyflogres gan eu bod yn sefydliad allanol, esboniodd PV fod y Gyflogres yn cael ei chynnal gan Bartneriaeth



Cydwasaethau GIG Cymru a bod eu cydymffurfedd â'r Polisi a'u harweiniad â rheolau'r gyflogres wedi'u hadrodd i Bwyllgor Partneriaeth y Pwyllgor Cydwasaethau, a oedd yn goruchwyllo'r gwaith o lywodraethu'r corff a rennir hwnnw. Mae PV yn mynychu'r Pwyllgor hwnnw ar ran TC ac anfonir unrhyw sicrwydd neu faterion drwy'r Pwyllgor hwnnw i'r Tîm Gweithredol Busnes.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd adennill y gordaliad yn ystyried cydraddoldeb a sefyllfaoedd iechyd. Cadarnhaodd JM fod y broses yn cynnwys dull dewisol i'w ddefnyddio.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Ystyried** y drefn newydd, a'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb
- **Nodi** bod y Tîm Arwain wedi cymeradwyo'r drefn i'w chymeradwyo gan y Pwyllgor hwn.
- **Cymeradwyo'r** Weithdrefn.

Polisi Diogelwch Gwybodaeth

Eglurodd JJ gefndir y Polisi Diogelwch Gwybodaeth, ei fod yn cynnwys set o reolaethau, canllawiau a disgwyliadau ar gyfer diogelu cyfrinachedd, cywirdeb ac argaeledd yr asedau gwybodaeth y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn berchen arnynt ac yn eu rheoli. Byddai'r polisi yn cyd-fynd â pholisi Diogelwch Gwybodaeth Cymru Gyfan a oedd yn cael ei adolygu.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Ystyried** yr wybodaeth yn y Polisi a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad 1a).
- **Nodi** bod y Tîm Arwain wedi cymeradwyo'r Polisi i'r Pwyllgor.
- **Cymeradwyo'r** Polisi Diogelwch Gwybodaeth.

ACGC 6/2025.01.14	Er Gwybodaeth
ACGC 6.1/2025.01.14	Cyllid, Caffael ac Atal Twyll
Dim.	
ACGC 6.2/2025.01.14	Archwilio Mewnol, Allanol a Chlinigol
Dim.	
ACGC 6.3/2025.01.14	Rheoli Risg
Derbyniodd a nododd y Pwyllgor y Gofrestr Risg Strategol.	
ACGC 6.4/2025.01.14	Llywodraethu ac Atebolrwydd
Dim.	
ACGC 6.5/2025.01.14	Cynllun Gwaith y Pwyllgor
Derbyniodd a nododd y Pwyllgor y Cynllun Gwaith.	
Roedd y Pwyllgor wedi holi ynghylch y gwahanol gyfarfodydd a amlinellwyd yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor rhwng Aelodau'r Pwyllgor ac Archwilio Cymru, Archwilwyr Mewnol	



a Gwrth Dwyll. Dywedodd LB y byddai hyn yn cael ei adolygu a chyfeirio ato o fewn cynllun gwaith y flwyddyn nesaf er mwyn eglurder.

ACGC 7/2025.01.14 | Gweinyddiaeth i Gloi

Diolchodd NE i JM am ei gwaith diwyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a dymunodd yn dda iddi yn ei rôl newydd gyda Gweithrediaeth y GIG.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ddefnyddio'r ddolen yn y sgwrs i gyflwyno ffurflen ymateb neu i e-bostio adborth ar y cyfarfod i LB.

Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor: 14 Mawrth 2025

Unrhyw Fater Arall: Dim.

Diolchodd NE i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:45.

UNCONFIDENTIAL

**Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru heb eu Cadarnhau
Cyfarfod Pwyllgor Sesiwn Gyhoeddus Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
14 Ionawr 2025 am 12:45, yn 3.2 CQ2 a thrwy Microsoft Teams**

Rhan B

Yn bresennol		
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol, Cadeirydd
Tamsin Ramasut	(TR)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Yn Bresennol:		
Anne Beegan	(AB)	Archwilio Cymru
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Llywodraethu Integredig
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
Pippa Britton	(PB)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Bwrdd
Andrea Calise	(AC)	Rheolwr Contract, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid
Danielle Gething	(DG)	Pennaeth Rheoli Risg (ar gyfer eitem 4.2)
Claire Green	(CG)	Gweithrediaeth y GIG
Clare Jenkins	(CJ)	Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd y Bwrdd
Jonathan Jones	(JJ)	Prif Reolwr Seiberddiogelwch (ar gyfer eitem 5.4)
Ian Kent	(IK)	Rheolwr Cyllid
Alun Lloyd	(AL)	Cynghorydd Annibynnol
Jane Matthews	(JM)	Pennaeth Adrodd a Rheoli Ariannol
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Angela Williams	(AW)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid
Steve Wyndham	(SW)	Archwilio Cymru
Ychwanegu pobl NHSE		
Ymddiheuriadau		
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Katrina Febry	(KF)	Archwilio Cymru
Dechreuodd y cyfarfod am 12:45		
ACGC 8/2025.01.14 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb		



Agorodd NE y cyfarfod a chroesawodd pawb a oedd yn bresennol. Nododd bod y cyfarfod hwn wedi'i gynnal yn electronig ac wyneb yn wyneb yn CQ2.

Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn sicrhau cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ym mis Mawrth 2025.

Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb a dderbyniwyd.

ACGC 9/2025.01.14 | **Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

ACGC 10/2025.01.14 | **Busnes Gweithrediaeth y GIG**

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Sicrwydd Chwarterol Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol (ACGC) Gweithrediaeth y GIG

Dywedodd CG wrth y Pwyllgor fod trafodaethau wedi mynd rhagddynt gydag Archwilio Mewnol a oedd wedi cydnabod dau faes ar gyfer Archwilio Mewnol:

- Byddai'r Weithrediaeth yn cael ei chynnwys mewn unrhyw feysydd sy'n gysylltiedig ag Adroddiadau Archwilio Mewnol Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Trefniadau Llywodraethu Gweithrediaeth y GIG.

Dywedodd PD wrth y Pwyllgor, yn ogystal â'r ddau faes a nodwyd gan CG, fod capasiti i'w dîm gwblhau adolygiadau pellach yn benodol i feysydd a nodwyd gan Weithrediaeth y GIG.

Bu'r Pwyllgor yn trafod rheoli ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, nododd CG fod nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi cynyddu pan oedd Gweithrediaeth y GIG wedi'i ffurfio, sefydlwyd proses ac roedd wedi llwyddo i reoli'r broses o drosglwyddo Rhyddid Gwybodaeth o Iechyd Cyhoeddus Cymru i Weithrediaeth y GIG.

Rheoli Risg (Chwarterol)

Cyfarfu Gweithrediaeth y GIG â Danielle Gething a Bethan Osbourne ar 10 Ionawr a chytunwyd i drosglwyddo'r holl adroddiadau risg i DATIX o fis Ebrill 2025. Byddai hyn yn sicrhau cysondeb ag Adroddiadau Risg Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Hysbysodd CB y Pwyllgor am risg uwch i Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran cefnogi cydweithwyr yng Ngweithrediaeth y GIG yn eu defnydd o DATIX. Gofynnodd i'r Pwyllgor nodi cais i fynd i'r afael â'r ddarpariaeth gwasanaeth hon yn y flwyddyn i ddod. Sicrhaodd PV y Pwyllgor y byddai'r Sefydliad yn mynd i'r afael â'r materion hyn wrth iddo baratoi'r fersiwn newydd o'r Cytundeb Lletya.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cymryd **sicrwydd** bod yna broses rheoli risg effeithiol o fewn Gweithrediaeth y GIG.
- Cymryd **sicrwydd** bod unrhyw risg a nodwyd gan Weithrediaeth y GIG yn yr adroddiad hwn yn berthnasol i Iechyd Cyhoeddus Cymru a'i fod wedi'i



uwchgyfeirio'n briodol.

Gweithgarwch Archwilio (Chwarterol)

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Nodi** bod y dull archwilio ar gyfer 2024/25 ar gyfer Gweithrediaeth y GIG yn cael ei adrodd ar wahân.
- **Nodi** nad oedd unrhyw weithgaredd archwilio newydd wedi ei gychwyn yn ystod y cyfnod adrodd.

Cydymffurfedd Atal Twyll (Chwarterol)

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Nodi** na adroddwyd am unrhyw weithgarwch Atal Twyll i Weithrediaeth y GIG yn ystod y cyfnod adrodd.

Cydymffurfedd Llywodraethu Gwybodaeth (Chwarterol)

- Cymryd **sicrwydd** bod Gweithrediaeth y GIG wedi cydymffurfio â Pholisi a phrosesau Llywodraethu Gwybodaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Cymryd **sicrwydd** bod unrhyw ddiffyg cydymffurfedd a oedd yn cynrychioli risg reoleiddiol i Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei reoli'n briodol.

ACGC 7/2025.01.14

Gweinyddiaeth i Gloi

Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor: 10 Mawrth 2025

Gofynnwyd i'r Pwyllgor e-bostio adborth am y cyfarfod at LB.

Diolchodd NE i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:55.

UNCONFIRMED